

Pwysigrwydd yr Uchel Wyliau Sanctaidd

I Iddewon, mae'r flwyddyn galendr newydd yn dechrau ar ddydd cyntaf mis Tishrei. Mae Leftricus 23: 24 yn dweud: 'Ar y dydd cyntaf o'r seithfed mis yr ydych i gael diwrnod gorffwys; bydd yn gymanfa sanctaidd, i'w dathlu â chanu utgryn' (cymharer â Numeri 29: 1). Os cyfrifwn ni Nisan (adeg yr Exodus) fel y mis cyntaf, mae hyn yn dod â ni at 1 Tishrei. Dim ond yn y llenyddiaeth wedi'r Beibl y galwyd y diwrnod yma'n Rosh Hashanah ('y Flwyddyn Newydd', yn llythrennol, 'Pen y Flwyddyn' neu 'Penblwydd'). Yn y Mishnah, mae'r diwrnod yma yn ddechrau tymor penyd (Rosh Hashanah 16b). Mae'n cael ei ddathlu fel penblwydd y byd ac, yn enwedig, penblwydd y ddynolryw. Mae ein sylw, felly, wedi ei ganolbwyntio ar Dduw y creawdwr, y mae pobl yn atebol iddo am y ffordd maen nhw'n byw. Bydd y farn derfynol ar y flwyddyn yn cael ei rhoi ar ddiwrnod olaf y tymor penyd yma, sef y degfed diwrnod, gan roi digon o amser i bobl fyfrio ac edifarhau. Felly, y geiriau sy'n codi dro ar ôl tro yn litwgi'r tymor yma yw '*Cofia ni byd at fywyd oberwydd yr wyt Ti, O Frenin, yn ymbyfrydu mewn bywyd; cofnoda ni yn Llyfr y Bywyd, er Dy fuyn Di, o Dduw bywyd*' a chyfarchiad y tymor ymhlith Iddewon yw 'Boed i ti gael dy gofnodi a'th selio am flwyddyn dda'.

Holl fwriad y cyfnod yma yw helpu Iddewon unigol i sylweddoli eu rhan mewn math o ddrama gosmig a'i hannog i ymdrech'u'n galed i gydnabod popeth sydd o'i le yn eu perthynas â Duw a gyda phobl eraill, a gwneud yn iawn am hynny. Mewn ffordd, mae addunedau blwyddyn newydd difrifol yn rhan o litwgi ac arferion y calendr. Mae'r deg diwrnod penyd yn dod i ben ar *Yom Kippur* ('Dydd y Cymod'), diwrnod mwyaf sanctaidd y calendr Iddewig. Yr 'Uchel Wyliau Sanctaidd' yw Rosh Hashanah, sy'n cael ei chadw am ddeuddydd yn Israel yn ogystal â gwledydd y Diaspora, a Yom Kippur. I bwysleisio'r parch y dylai pawb ei deimlo tuag at Dduw, eu henw arall yw'r *Yamim Noraim* ('Dyddiau'r Parchedig Ofn').

Mynd at graidd y 'mater'

Gellid dadlau fod deall yr Uchel Wyliau Sanctaidd yn golygu deall Iddewiaeth. Edifeirwch a chymod yw uchafbwynt bywyd ysbrydol Iddew. Byddai llawer o bobl yn dweud, mewn geiriau gwahanol efallai, mai'r rhain yw craidd bywyd dynol yn gyffredinol. Yn sicr, mae wynebu'n camgymeriadau, peidio â dal

Yn y bennod hon byddwch yn dysgu:

- sut yr aeth y Flwyddyn Newydd a Dydd y Cymod yn ddyddiau pwysicaf y calendr Iddewig
- am y gerddoriaeth a'r geiriau a ddefnyddir i fynegi edifeirwch a dechreuad newydd
- ynglŷn â gwreiddiau a phwrpas ymprydio ar Ddydd y Cymod.

15

y Flwyddyn Newydd a Dydd y Cymod

dig, teimlo nad yw pobl eraill yn dal dig tuag atoch chi bellach, a theimlo bod cyfle gwirioneddol i ddechrau o'r newydd yn brofiadau pwysig iawn. O safbwynt Iddewig, dylunydd yr holl ymgymeriad yw'r un y gellir troi ato am y fath adnewyddiad.

Mae dau beth anodd ynglŷn â cheisio deall y dyddiau yma o'r tu allan. Yn gyntaf, gallwn ofyn: 'Uchel Wyliau Sanctaidd pwy ydyn ni'n eu hastudio?' Mae syniadau am y dyddiau hyn a'r ffordd maen nhw'n cael eu cadw yn amrywio'n fawr. Mae rhai'n pwysleisio dyletswydd, ac eraill yn pwysleisio teimladau, fel y gwelwn yn y stori am Chasid, sef yr unig un yn ei synagog oedd yn gallu chwythu'r corn hwrdd. Pan safodd i chwythu, roedd dan gymaint o deimlad nes iddo ddechrau beichio critio. Dywedodd rabbi Lithwanaidd wrth y Chasid: 'Gorchmynnwyd i ni chwythu, felly chwytha.' Beth am y nifer fawr o Iddewon sydd heb fod yn perthyn i unrhyw synagog ond sy'n ceisio'u gorau i fynd i'r synagog yn y cyfnod yma, yn enwedig ar Yom Kippur? A beth mae liturgi'r cyfnod yma, â'i sicrwydd mai Duw sy'n trefnu ac yn barnu ei fyd, yn ei olygu i Iddewon wedi'r Holocost? Yn ail, efallai bod rhaid gofyn a all unrhyw un o'r tu allan wir ddeall ffydd rhywun arall. Mae'r gyfrol yma wedi'i seilio ar y gred fod modd deall rhywfaint. Y ffordd orau o ddeall profiad yr Uchel Wyliau Sanctaidd yw trwy eu liturgi.

Creu'r awyrgylch

Sain y Shofar

Mae geiriau a cherddoriaeth y gwasanaethau yn creu'r naw. Uchafbwynt Rosh Hashanah a sain nodweddiadol yr holl gyfnod yw'r *shofar* ('corn hwrdd'). Am fis cyfan cyn Rosh Hashanah, mae'r shofar yn cael ei seinio bob bore ac eithrio bore Shabbat. Diben hyn yw cyfleu teimlad o'r hyn sy'n dod a theimlad o newid yn ystod mis Ellul, sy'n arwain at y Flwyddyn Newydd. Mae rhai'n cysylltu'r shofar â hanes rhwymo Isaac lle mae hwrdd yn cael ei ddal gerfydd ei gyn mewn drysni (Genesis 22: 13). Mae stori parodrwydd Abraham i aberthu ei fab yn cael ei darllen ar ail ddiwrnod yr ŵyl. Ond does dim rhaid gwneud y cysylltiad yma er mwyn i'r sain effeithio yn ei ffordd wylofus, daer a herfeiddiol. Mae Maimonides yn pwysleisio gallu'r sain yma i gyffroi pobl ysbrydol segur.

Mae pobl wedi egluro arwyddocâd y shofar mewn llawer o ffyrdd, ar sail y tri gwahanol fath o nodyn a seinir. Ers y drydedd ganrif, mae'r nodau hyn wedi cyfuno i ffurfio cyfres eglur. Un

chwythiad hir, estynedig, di-dor yw cyntaf, y *tekiab*, sydd yn galw am sylw, ac am symud i gyfeiriad newydd. Tri sain toredig yw'r ail, y *shevarim*, ac mae'r trydydd, *teruah*, yn naw sain staccato. Y gred yw fod y shevarim a'r teruah yn cynrychioli wylo pobl sy'n edifarhau. Edifeirwch yw'r nod gyffredinol, ac mae'r sain cyffredinol yn ategu hynny. Mae'r weddi yma o Musaf (gwasanaeth ychwanegol) Rosh Hashanah yn cyfleu'r teimlad o barchedig ofn

Mae'r shofar mawr yn seinio; clywir siburd tawel; mae'r angylion, gan grynu ag ofn, yn dweud: 'Daeth dydd y farn i farnu lluoedd y nefoedd!' Yn wir, nid yw hyd yn oed y rhain yn ddieuog yn dy olwg. Mae'r boll ddynolryw'n mynd heibio fel praidd o ddefaid. Fel y mae bugail yn chwilio am ei braidd, a pheri iddynt fynd heibio o dan ei ffon, felly yr wyf ti yn peri i bob enaid byw fynd heibio ger dy fron: yr wyf yn cyfrif ac yn rhifo dy greaduriaid, gan bennu byd eu bywyd a chofnodi eu tynged.

Rhwng galwadau'r shofar yn y gwasanaeth Rosh Hashanah, darllenir adnodau o'r ysgrythur yn dathlu Duw fel brenin ac fel barnwr, gyda sain y shofar. Mae'r rhain yn cynnwys Exodus 19: 16 lle mae Duw yn ei ddatgelu ei hun ac yn creu'r cyfamod yn Sinai, Eseia 27: 13, lle mae Duw yn casglu pobl o wledydd eraill i'w addoli ef yn Jerwsalem, a Salm 81: 4-5 lle mae'r shofar yn cyhoeddi'r lleuad newydd. Yn ôl y Gaon Saadiah, un o'r deg rheswm dros chwythu'r shofar yw'r utgym sy'n seinio pan gaiff brenin ei goroni. Felly, ar ddechrau'r flwyddyn, mae Duw'n cael ei goroni'n Frenin. Yn sicr, mae thema brenhiniaeth yn hanfodol i Rosh Hashanah, Fel creawdwr, gwnaeth Duw fwy na dim ond rhoi'r byd ar waith; mae hefyd yn galw ar fodau dynol i ufuddhau iddo o hyd.

Gweddïau edifeiriol

Drwy gydol Ellul, mae *selihot* ('gweddïau edifeiriol') yn cael eu hadrodd yn gynnar yn y bore, er mwyn cael pobl i ganolbwyntio a magu'r egni ysbrydol a fyynnir gan yr Uchel Wyliau Sanctaidd. Mae'r selihot yn meithrin hunan-ymholi a disgwylgarwch. Mae Mahzor (llyfr gweddi gwyl) y mudiad Diwygiedig yn cynnwys darlleniadau byr a myfyrdodau ar gyfer yr holl gyfnod. Mae gweddi gyffes o wasanaeth selihot yn cynnwys y geiriau:

*Am beidio â gwrando ar Dy lais ynom
Am wadu anghenion ein benaid
Am wneud y byd hwn yn dduw
Maddau i ni, trugarha wrthym a rho i ni gymod . . .
Am ddal dig a sarbad
Am wrthod gollung gafael
Am anobeithio*

Maddau i ni, trugarha wrthym a rho i ni gymod . . .

Mae Rosh Hashanah yn creu teimladau cymysg sy'n deillio o'r pwyslais ar frenhiniaeth Duw, sy'n cynnwys tosturi a barn, ill dau. Gallwn weld hyn yn y myfyrdod nesaf, lle mae'r siaradwr yn symud o'r teimlad agoriadol o barchedig ofn ac anheliyngdod tuag at ymdeimlad o gariad dwyfol a llawenydd:

*Yn dlawd mewn gweithredoedd teilwng, rwyf yn
arswydo yn dy bresenoldeb, tydi sydd ar dy orsedd ac
yn derbyn mawl gan Israel . . . Boed i'n diffygion gael
eu maddau gan dy gariad, gan fod cariad yn tynnu
llen dros bob camwedd. Boed i ti droi pob cystudd yn
llawenydd a gorfoledd, bywyd a heddwch, i ni ac i
Israel gyfan.*

Ond mae'r cyfuniad yma o ofid ymbellhau a llawenydd dychwelyd yn hanfodol. Mae'n cael ei fynegi'n drawiadol iawn yn y ffordd y bydd rhai cymunedau, ar Yom Kippur, yn canu cân gymunedol faith sy'n cyffesu pechodau ofnadwy. Mae stori arall yn taflu goleuni pellach. Ar ôl clywed am rabbi oedd yn dilyn yr arfer yma, dyma'r Baal Shem Tov:

*yn anfon am y rabbi ac yn gofyn: 'Pam ydych chi'n
canu'r gyffes yn llawen?' A meddai'r rabbi wrtho,
'Wele, os yw gwas yn glanhau buarth brenin, ac os
yw'n caru'r brenin, bydd yn hapus iawn yn glanhau'r
baw o'r buarth, ac yn canu alawon hapus, oherwydd
y mae'n rhoi pleser i'r brenin.*

Felly, ar Rosh Hashanah, mae teimlad cryf o lawenydd a hwyl ynghyd â phwyslais ar arswyd dydd y farn sydd i ddod. Dydy hi ddim bob amser yn hawdd cadw'r ddysgl yn wastad rhwng y ddau syniad allweddol, sef pechod dynol a gras dwyfol, ond mae'n rhan bwysig o arwyddocâd yr holl gyfnod.

Duw'r Brenin

Mae litwrgi Rosh Hashanah ei hun yn canolbwyntio'n llai ar fodau dynol fel pechaduriaid, a mwy ar Dduw fel brenin. Does

braidd dim sôn am bechod. Yn y Musaf, mae cyfres o fendithion, y 'breniniaethau', sy'n dechrau fel hyn yn y Mahzor Diwygiedig:

*Gadewch i ni feddwl am y grymoedd sy'n rheoli ein
bywydau, ffrydiau greddf a dyhead sy'n codi o
ddyfnder ein bodolaeth, llanw uchelgais a chwant
sy'n ysgubo ymaith ein bewyllys, tonau bach arfer a
threfn bob-dydd sy'n boddi'n gweledigaeth – ac eto
mae'r Arglwydd yn fwy na'r rhain oll, ac mae Ei lais
llonydd bach yn uwch na'u rhuo. Ar y Flwyddyn
Newydd, rydym yn ei gydnabod Ef fel brenin; boed
iddo Ef deyrnasu drosom ac ynom.*

Mae'r ddelwedd o hen ddyn ar ei orsedd yn gallu creu problemau, ond pwrpas yr ieithwedd oedd adfer syniad o Dduw yn y byd, y teimlad ysbrydol sy'n hanfodol er mwyn cymod. Efallai y byddech yn disgwyl i'r syniad ddatblygu o'r cyfeiriad arall, ac i'r litwrgi ddechrau gydag ysgubo'r pechodau ymaith ac yna canolbwyntio ar faterion ysbrydol. Ond roedd Maimonides, er enghraifft, wedi gweld perygl hyn. Gallai arwain at ymgolli ynoch chi'ch hun yn llwyr, fel pe bai Duw rywsut yn atodol i'r broses.

Dychwelyd

Y ddolen gyswllt hanfodol yw edifeirwch. Y gair Hebraeg yw *teshuwab*, sy'n golygu, yn llythrennol, 'dychwelyd'. Gall dychwelyd at Dduw fod ar ystyr syml iawn, neu gall olygu datblygiad mewnol dwys iawn. Mae Salm 51 yn mynegi hyn yn glir, yn adnod 10:

*Crea galon lân ynof, O Dduw,
a rho ysbryd newydd a iawn ynof*

Rhwng Rosh Hashanah a Yom Kippur mae dyddiau penyd Ymryd Gedaliah a *Shabbat Shuvah* ('Saboth y Dychweliad'). Ar Shabbat Shuvah, y darlenniad o'r Proffwydi yw Hosea 14, sy'n apelio ar i Israel ddychwelyd at Dduw, gan addo maddeuant a chyfoeth.

Mae ymdeimlad dwys iawn o bechod mewn Iddewiaeth ond, ar yr un pryd, mae'r grefydd yn pwysleisio mai peth dros-dro yw pechod, oherwydd mae gennym y dewis a'r gallu i droi'n ôl at Dduw a chael ein puro'n ysbrydol. Dydy syniad Iddewiaeth ddim (fel syniad Cristnogaeth o 'bechod gwreiddiol') yn fater o duedd naturiol tuag at ddrygioni, ond bod bywyd yn frwydr

ar ddiwrnod cyntaf Rosh Hashanah (neu ar yr ail ddiwrnod os yw'r cyntaf yn Shabbat) yn rhoi darlun da iawn o syniadau sydd weithiau'n gallu ymddangos yn gymhleth. Seremoni *Tashlich* ('taflu i ffwrdd') yw hon. Mae Iddewon yn dod at ei gilydd fel cymuned, ar lan afon neu fôr, i adrodd Micha 7: 19 lle mae Duw yn taflu pob pechod 'i eigion y môr'. Mae rhai pobl yn hoffi actio'r weithred yma drwy wagio unrhyw friwsion neu lwch sydd yn eu pocedi. Mae tashlich yn hen arfer ymhlith cymunedau Uniongred, ac mae'n fwyfwy cyffredin ymhlith cymunedau Diwygiedig yn y blynyddoedd diwethaf.

Kapparat

Dim ond Iddewon Uniongred iawn sydd bellach yn cadw arfer symbolaidd arall wrth baratoi ar gyfer Dydd y Cymod. *Kapparat* ('cymodau') yw hwn, o'r un gwraidd â *Kippur*. Mae wedi ei seilio ar hen ddefod y Deml ar y diwrnod yma, sy'n cael ei disgrifio yn Leftricus 16, pan oedd bwch gafr yn cael ei yrru allan o Jerwsalem i'r anialwch. Bwch dihangol oedd hwn, yn cario pechodau'r bobl. Ar ôl dinistr y Deml, datblygodd yr arfer o ladd cyw iâr yn lle hynny a'i roi i rywun tlawd ar gyfer eu pryd gŵyl cyn Yom Kippur. Erbyn heddiw, mae'r rhan fwyaf o bobl yn rhoi arian yn lle cyw iâr. Mae'n dal i gyfleu'r syniad o fod wedi pechu a bod angen gwneud yn iawn am hynny. Dydy'r cymunedau Diwygiedig byth yn perfformio kapparat. Yn lle hynny, mae pobl yn gwahodd pobl unig neu anghenus i dorri ymryd Yom Kippur yn eu cartref, neu gyda'r gymuned yn y synagog.

Ymptydio

Pwrpas Yom Kippur

Un o nodweddion gŵyl yw pryd arbennig o fwyd, ac mae hyn yn enwedig o wir yn y grefydd Iddewig. Felly, ar ôl i Rosh Hashanah gael ei groesawu drwy adrodd kiddush, yr arfer yw bwyta bwyd sy'n cynnwys mêl, fel cacenni a bisgedi, neu afalau wedi eu trochi mewn mêl. Y gobaith yw y bydd y fliwyddyn yn un felys. Ond nid dim ond gŵyl yw Yom Kippur, ond dydd o ymptydio hefyd, pan na cheir bwyta nac yfed dim. Efallai yr ymddengys yn od i ymptydio ar ddydd gŵyl, ond nid hunangosi a thrimlo'n ddiflas yw pwrpas yr ymptyd. Y nod yw anghofio anghenion corfforol er mwyn canolbwyntio ar bethau

barhaol rhwng tueddiadau da a drwg. Fel mae Maimonides yn pwysleisio: 'Mae gan ddyn ewylllys rydd. Os yw dyn yn dymuno troi at ffordd daioni a bod yn berson cyfiawn, mae ganddo'r gallu i wneud hynny.'

Gwir edifeirwch

Yn ei lyfr, *Cyfreithiau Edifeirwch*, mae Maimonides yn obeithiol, gan gredu fod modd newid, ond bod yn rhaid newid agweddau, ansoddau a gweithredoedd. Teshuvah felly yw canolbwynt y deg diwrnod yma, ac mae'n golygu mwy na theimlo ei bod yn ddrwg gennych am wneud rhai pethau drwg; mae'n golygu trawsnewidiad ysbrydol, ailganolbwyntio ffocws eich bywyd ar Dduw a'i orchmynion moesol. Mae maddeuant graslon Duw yn dibynnu ar edifeirwch personol dwfn a phenderfyniad cryf ar ran yr un sy'n edifarhau. Dim ond wedi hynny y gall Duw gadw'r addewid sydd yn Eseaia 1: 18: 'Pe bai eich pechodau fel ysgarlad, fe fyddant cyn wynned â'r eira; pe baent cyn goched â phorffor, fe ânt fel gwlan'. Nid ennill maddeuant yw'r nod yn y pen draw, ond bod yn barod i wneud yn iawn am rywbeth, ac mae dewis a chyfrifoldeb yn bwysig iawn yn y broses yma. Mae gweithiau academaia talmudaidd Lithwania ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif yn realistig ynglŷn â hyn. Er enghraifft, mae Israel Salanter yn dweud ei bod hi'n haws astudio'r Talmud cyfan nag unioni un bai yng nghymieriad rhywun. Sefydlodd Salanter y mudiad *Musar* ('disgyblaeth') oedd yn ymdrechu i ddod â'r byd crefyddol a'i foeseig i mewn i fywyd a diwylliant person. Mae'r dewis hwn yn cael ei egluro'n glir gan un o ddarlenniadau Rosh Hoshannah o'r Torah, Deuteronomium 30: 15-16, 19:

Edrych, yr wyf am roi'r dewis iti heddiw rhwng bywyd a marwolaeth, rhwng daioni a drygioni. Oherwydd yr wyf fi heddiw yn gorchymyn iti garu'r ARGLEWYDD dy Dduw, a rhodio yn ei ffyrdd, a chadw ei orchmynion, ei reolau a'i ddeddfau; yna byddi fyw ... Yr wyf yn galw'r nef a'r ddaear yn dystion yn dy erbyn heddiw, imi roi'r dewis iti rhwng bywyd ac angau. rhwng bendith a melltith. Dewis dithau fywyd ...

Tashlich

Mae seremoni fach syml, sy'n digwydd ar ôl oedfa'r prynhawn

ysbrydol. Mae tri rheswm arall hefyd dros ymptydio ar Yom Kippur. Mae'n gallu bod yn benyd am bethau drwg a wnaed, i brofi eich bod yn wirioneddol edifar. Gall fod yn ffordd o feithrin hunan-ddisgyblaeth a hunan-reolaeth, sydd eu hangen er mwyn cadw addunedau'r Flwyddyn Newydd. Gall feithrin tosturi, drwy'r profiad o fod yn newynog, boed hynny ond am ddiwrnod, ac ymwybyddiaeth o'r angen sydd am leihau dioddefaint. Felly mae ymptydio yn ffordd o gyflawni amcan Yom Kippur yn hytrach na bod budd neilltuol i ymptydio. Mae'r darn o'r Proffwydi sy'n cael ei ddarllen ar y dydd (Eseia 57: 14 - 58: 14) yn ei gwneud hi'n glir nad yw'r weithred o ymptydio ynddi ei hun yn weithred dda:

*Y mae eich ymptyd yn arwain i gynnen a chweryl, a tharo â dymnod maleisus;
nid yw'r fath ddiwrnod o ymptyd yn dwyn eich llais i fyny uchod.*

Ai dyna'r math o ymptyd a ddeuwaisis – diwrnod i ddyn ei gystuddio'i hun?

A yw i grymu ei ben fel brwynnen, a gwneud ei wely mewn sachliain a lludw?

Ai byn a elwi yn ymptyd, yn ddiwrnod i ryngu bodd i'r ARGWLWYDD?

Onid dyna'r dydd ymptyd a ddeuwaisis: tynnu ymaith ruymau anghyfiawn, a llacio clymau'r iau, gollung yn rhydd y rhai a orthrymwyd, a dryllio pob iau?

Onid rhannu dy fara gyda'r newynog, a derbyn y tlawd digartref i'w dŷ,

dilladu'r noeth pan weli ef, a pbeidio ag ymguddio rhag dy deulu dy hun? ...

Pan elwi, bydd yr ARGWLWYDD yn ateb, a phan waeddi, fe ddywed, 'Dyma fi'.

(Eseia 58: 4-7, 9)

Gwreiddiau Yom Kippur

Lefiticus sy'n rhoi'r awdurdod a'r enw i Yom Kippur. Mae'r Talmud yn cyfeirio ato, yn syml iawn, fel 'Y Dydd' (Yoma 14b), sy'n dangos bod y rabiniaid yn deall mai'r dydd yma yw'r pwysicaf yn y flwyddyn Iddewig. Meddai Lefiticus 23: 27-8:

Yn wir, ar y degfed dydd o'r seithfed mis cynhelir Dydd y Cymod; bydd yn gymanfa sanctaidd ichwi, a byddwch yn eich cosbi eich hunain ... Nid ydych i wneud unrhyw waith y diwrnod hwnnw, am ei fod yn

Ddydd y Cymod, pan wneir cymod dros och gerbron yr ARGWLWYDD eich Duw.

Mae'r adnod yn gorchymyn yn glir na ddylai neb weithio, fel ar Rosh Hashanah a dyddiau) cyntaf prif wyliau eraill. (Ar Rosh Hashanah, mae'r Unigred yn dilyn yr un gwaharddiadau â rhai Shabbat, ond maen nhw'n cael coginio bwyd i'w fwyta ar yr un dydd. Mae'r mudiad Diwygiedig yn barnu gweithgareddau yn yr un modd ag ar gyfer Shabbat, gan ystyried nad yw teithio a defnyddio trydan, er enghraifft, yn 'waith' yn yr oes hon.) Mae gorchymyn Lefiticus 23: 27 y dylech ymwadu yn golygu, yn ôl y Rabiniaid, dim cyfathrach rywiol, nac eneinio (ymolchi), gwisgo sgidiau lledr (arwydd o gysur) ac, yn bennaf, bwyta ac yfed. Hon, felly, yw'r ymptyd bwysicaf mewn Iddewiaeth, ac y mae pawb, heblaw am blant ifanc iawn neu gleifion, yn ymptydio am 2.5 awr.

Cymod

Unwaith, eto, rhaid i ni ddarllen y testunau i geisio deall arwyddocâd Yom Kippur. Am bob llyfr ar ddiwinyddiaeth mewn llyfrgell Gristnogol, bydd llond silff o lyfrau mewn llyfrgell Iddewig ar y Gyfraith, hynny yw, y Talmud. Mae diwinyddiaeth Iddewig wedi ei seilio ar draddodiad a'r traddodiad hwnnw wedi ei fynegi ar ffurf gweddi. Mae hyn yn wir am ddiwinyddiaeth cymod. Mae Iddewiaeth yn gweld pechod fel rhywbeth sy'n gwahanu pobl oddi wrth Dduw a'u dieithrio. Fel y nodwyd, nid dim ond maddeuant yw pwrpas y cyfnod penyd yma sy'n arwain at Yom Kippur, er bod hynny'n bwysig, ond adferiad. Mae Teshuvah'n awgrymu dychwelyd at burdeb gwreiddiol ein bodolaeth. Drwy hynny, efallai y bydd y byd yn newid i gyflawni bwriad Duw ar ei gyfer, ac yn cael ei ailsancteiddio. (Mae cyfriniaeth Martin Buber ac Abraham Isaac Kook yn ymhelaethu ar y syniad yma mewn gwahanol ffyrdd.) Dyna, felly, ddwy agwedd y dydd. Yn wahanol i Tishah B'Av a dyddiau ymptyd eraill, dydy Yom Kippur ddim yn ddiwrnod trist. Oherwydd y posibilrwydd o adferiad, mae llawenydd yn y dydd, fel y gwelsom yn hanes y dyn yn canu wrth iddo lanhau buarth y brenin.

Kol Nidrei

Mae cân y dyn hwnnw, sef cyffes o bob math o bechodau, yn dal yn ganolog i Yom Kippur. Cyn dechrau cyffesu mae'n rhaid i'r addolwyr gael eu rhyddhau o bob llw ac addewid maen nhw

drwy ofynion busnes.

Ac am y pechod yr ydym wedi ei gyflawni ger Dy fron drwy ddefnyddio trais.

Am y pechod yr ydym wedi ei gyflawni ger Dy fron drwy lугrwo briwyo.

Ac am y pechod yr ydym wedi ei gyflawni ger Dy fron drwy orfodaeth.

Mae'r gyffes Uniongred yn yr un modd yn rhestru gweithredoedd sy'n gwneud niwed: condemnio'n fyrbyyll, cenfigen, cario cles, i enwi ond tri. Unwaith eto, dydy cyffesu ynddo'i hun ddim yn dod â rhywun yn ôl i fod yn un â Duw yn otomatig. Mae Iddewiaeth yn glir iawn am y ffaith na fydd Duw yn maddau unrhyw bechod yn erbyn rhywun os na fydd y pechadur wedi ceisio gwneud yn iawn am hynny. Fel y dywed y Mishnah:

Am gamweddau rhwng dyn a Duw, mae Dydd y Cymod yn cymodi; ond am gamweddau rhwng dyn a'i gyd-ddyn, nid yw Dydd y Cymod yn cymodi onid yw'r dyn wedi cymodi â'i gyd-ddyn gyntaf.

(Yoma 8: 9)

Yn niwinyddiaeth y Cymod, sy'n deillio o hyn, dydy gras dwyfol ddim yn ddigon heb ymrwymiad dynol. Mae awdurdod rabbinaidd cyfoes. J.B. Soloveichik wedi disgrifio hanfod Yom Kippur mewn disgrifiad barddonol o Moses yn sefyll ar Fynydd Sinai wedi trychineb y Llo Aur (Exodus 32). Ar ei ben ei hun ac yn llawn trallod, mae Moses yn crynu yn nistawrwydd llethol nos dywyll yr anialwch. Wrth iddo grynau mae'n clywed sŵn bychan yn y pellter. Wrth i Moses weddio ac ymbil arno, mae Duw'n ymddangos. Y casgliad yw fod yn rhaid i fodau dynol wneud ymdrech, waeth pa mor bitw, cyn gallu cyrraedd cyflwr o 'fod yn un' â Duw.

Ffyrdd eraill o fynegi edifeirwch

Mae'r Haftarah yn ystod oedfa'r prynhawn ar Yom Kippur yn lleisio dyhead cyffredinol Duw am edifeirwch. Yn Llyfr Jona, mae'n dweud wrth y proffwyd am bregethu wrth bobl Ninefeh. Rhaid i Jona a phobl Ninefeh newid – eu hymddygiad yn ogystal â'u hagwedd. Mae'r Mishnah'n nodi mai 'pan welodd Duw beth a wnaethant a'u bod wedi troi o'u ffyrdd drygionius' y penderfynodd beidio â'u cosbi, nid pan welodd eu sachlain a'u hymprydio (Taanit 2: 1).

wedi methu eu cadw yn ystod y flwyddyn. Mae tyngu llw mewn Iddewiaeth yn fater difrifol, ac mae methu cadw'r llw yn gallu creu temlad o ddrygioni mae angen cael gwared ohono. Felly, ar noswyl Yom Kippur, mae'r synagogau'n llawn ar gyfer gwasanaeth hir. Mae'r gwasanaeth yn dechrau gyda'r *Kol Nidrei* ('Pob llw'), gweddi ar i Dduw ddileu pob llw sydd heb ei gadw. All y weddi yma ddim cael ei defnyddio i ddileu ymrwymiad mae Iddewon heb ei gyflawni, fel ad-dalu dyled i rywun. Mae'n ymwneud â llw rhyngddynt a Duw, fel ymryd wirfoddol (gweler pennod 13) neu ryw ddyletswydd crefyddol arall na gafodd ei gyflawni am reswm da. Yr enghraifft gliriach o lw o'r fath mewn hanes oedd cyfnod y Chwil-llys yn Sbaen, pan fu'n rhaid i Iddewon dyngu llw o deyrngarwch i'r Eglwys Gristnogol er mwyn peidio â chael eu herlid. Roedd gweddi Kol Nidrei yn galluogi Iddewon i barhau i addoli Duw heb deimlo eu bod wedi ei wadu. Mae tôn hynafol y weddi yma yn atgof teimladwy o'r anawsterau mae Iddewon wedi eu hwynebu wrth geisio cadw eu ffydd. Dywedodd y rabbi o'r drydedd ganrif ar ddeg, Jwda'r Duwio!

Ymbiliwch ar Dduw meun alaw sy'n gwneud i'r galon wyllo, a molwch Ef meun alaw a fydd yn gwneud iddi ganu. Felly fe'ch llenwir â chariad a llawenydd tuag at yr Hun sydd yn gweld y galon.

Gweddïau cyffesu

Ar ôl dileu'r llwon crefyddol, pechod sydd dan sylw wedyn. Does dim modd dileu pechod, dim ond maddau i berson a'i ryddhau o'i bechodau. Mae pwyslais clir iawn ar ddyletswydd pob Iddew unigol i ufuddhau i rai gofynion moesol. Mae'r gweddïau cyffesu yn rhestru – rhai'n fwy manwl nag eraill – y pechodau sydd i gael eu maddau. Fel y rhan fwyaf o weddïau Iddewig, mae'r gweddïau hyn yn defnyddio'r lluosog 'ni' fel ein bod yn cofio fod pob person yn teimlo gofid ac, yn aml, effeithiau pechodau pobl eraill, ond mae saib ar ôl pob adran wahanol lle gall pawb gyffesu pechodau neilltuol yn breifat. Mae ffurf hir y gyffes yn y llyfr gweddi Diwygiedig yn rhestru 44 o bechodau, gan ddechrau fel hyn:

Am y pechod yr ydym wedi ei gyflawni ger Dy fron drwy siarad ffôl.

Ac am y pechod yr ydym wedi ei gyflawni ger Dy fron drwy gamddefnyddio'n meddwl.

Am y pechod yr ydym wedi ei gyflawni ger Dy fron

Mae llawer o Iddewon yn treulio Yom Kippur yn y Synagog, er bod rhai'n mynd allan am awyr iach neu'n mynd adre yn y prynhawn. Mae'n ddiwrnod cyfan o ganolbwyntio ar gymod, ac mae popeth yn wyn, lliw llawenydd a phurdeb. Dillad gwyn sydd gan y rabbi a'r cantor a llenni gwyn sydd o flaen yr arch. Mae rhai dynion yn gwisgo kittel gwyn dros eu dillad. (Bydd rhai wedi bod i'r mikveh y noson cyn Yom Kippur er mwyn cael glanhad ysbrydol, gweler pennod 9.) Mae'r gwasanaeth yr un mor hir mewn synagogau an-Unionfred. Er nad oes sôn am aberthu, atgyfodiad corfforol y meirw, a Meseia personol am fod Diwygwyr yn credu fod hynny'n perthyn i ddiwinyddiaeth oes a fu, mae amrywiaeth eang o ddeunydd, hynafol a modern, yn cael ei gynnwys yn lle'r pethau hynny.

Neilah

Enw'r gwasanaeth olaf ar ddiwedd y prynhawn yw *Neilah* ('cau'), cyfeiriad at gau clwydi'r Deml pan oedd yr offeiriad yn gweddio yn yr hen ddyddiau. Mae ystyr y gwasanaeth Neilah wedi datblygu o hyn, sef cau clwydi nefolaidd barn Duw. Mae'r clwydi, sydd ar agor i rai sy'n edifarhau, wedi eu cynrychioli gan ddrysau'r arch sydd ar agor drwy gydol y gwasanaeth. Mae Eseciel 18 yn canolbwyntio ar gyfrifoldeb yr unigolyn i ufuddhau i Dduw, ac yn ei herio â holl bwrpas yr Uchel Wyliau Sanctaidd:

'A wyf yn ymbyfrydu ym marw'r drygionus, medd yr Arglwydd DDuw. Onid gwell gennyf iddo droi o'i ffyrdd a byw?'

(Eseciel 18: 23)

Mae un chwythiad hir ar y shofar yn cyhoeddi diwedd yr ymryd. Yn y cartref ac yn y synagog, mae pobl yn perfformio havdalah ac yn diweddau eu hymryd. Mae rhai pobl yn mynd ati'n syth i adeiladu sukkah ar gyfer yr ŵyl nesaf. Drwy baratoi ar unwaith i ufuddhau i mitzvah Sukkot, maen nhw'n mynegi hanfod y ffydd Iddewig: mae Duw wedi rhoi mitzvot i'w dilyn er mwyn iddyn nhw fyw yn y ffordd y bwriadodd ef.

16

yr Holocaust

Yn y bennod hon byddwch yn dysgu:

- beth fu effaith yr Holocaust ar gred Iddewig
- beth yw pwrpas cofio'r Holocaust
- ynglŷn ag ymdrechion rhai diwinyddion Iddewig i geisio egluro'r Holocaust